

Munudau Cyfarfod Cyngor Cymuned Abernant
Nos Iau, 3ydd o Fedi 2020

Yn bresennol: Mr Ian Williams, Mr Eirian Howells, Mrs Katrina Gabillia, Mr Robin Williams, Mr Chris Bish, Mr Paul Moggridge, Cyng Jean Lewis

1. Sylwadau'r Cadeirydd: Estynnwyd gair o groeso gan y Cadeirydd i'r cyfarfod

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb: Cynghorwyr i gyd yn bresennol

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mawrth:

Cynnig: Mr Robin Williams

Eilio: Mrs Katrina Gabillia

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

(a) Materion Priffyrdd – mi roedd pawb yn falch iawn i glywed bod y cwrb ger pont Talog wedi cael ei disodli.

Mae'r materion canlynol dal heb gael eu datrys

(i) Darn o dir sydd wedi erydu oddi ar dro Cilwendeg. Mae hwn nawr yn fater difrifol ac mae angen i'r Clerc rhoi fwy o bwysau ar y Cyngor Sir

(ii) Rhoddwyd diweddariad gan I Williams ynghylch coed sydd yn gordyfu ym mhentref Talog. Mi roedd pawb yn bresennol yn hapus gyda'r diweddariad

(b) Mi wnaeth y Cynghorwyr mynegi gyda siom a thristwch fod Ysgol Abernant wedi ei chau. Braf clywed bod y plant i gyd wedi cael ei adleoli i ysgolion o fewn y dalgylch. Nid oes unrhyw fanylion pellach wedi dod i law am ddefnydd o'r adeilad yn y dyfodol

(c) Diffibriliwr – mae'r cabinet y diffibriliwr tu allan i Haulwen dal heb gael ei drwsio yn dilyn cais gan y Cyngor Cymuned am gabinet newydd wrth Cariad. Mi ofynnwyd i'r Clerc ddanfôn llythyr at Cariad, gan roi 14 diwrnod iddynt i ddatrys y broblem. Os na fydd yna weithredu yna byddwn yn adrodd i gomisiwn elusennol

(d) Mae blwch ffôn Abernant wedi cael ei dynnu i ffwrdd yn gyfan gwbl ar 26ain o Fawrth 2020. Y mae yna rybudd tyngu i ffwrdd ar flwch ffôn Talog.

5. Gohebiaeth

Nid oedd yna ohebiaeth gan i'r clerch ddanfôn e-byst i'r cynghorwyr yn ystod y cyfnod clo

6. Adolygiad Archwilio

Mi wnaeth y Cynghorwyr gymeradwyo'r adroddiad blynyddol wrth archwilydd mewnol – Charles Cyf, Caerfyrddin

7. I'w drafod

(a) Mae yna adroddiadau am fandaliaeth yn Ysgol Abernant. Cyngorydd Jean Lewis i siarad gyda'r Cyngor Sir

(b) Mae angen i Briffyrdd archwilio'r mater sy'n ymwneud â draenio dŵr rhwng Penrheol a Lleine

(c) Angen llenwi ochrau'r hewlydd o Gapel Cendy tuag at Dafarn y Cwm

10. Taliadau

Cyflog y Clerc - £521.02

Costau Teithio'r Clerc - £210.40

Parth Gwefan - £32.12

Taliadau Goleuadau - £188.64

Terfynwyd y cyfarfod am 9.00yh. Dyddiad cyfarfod nesaf i'w gadarnhau

